

GORILLA

Gorilla TV yw adnoddau ôl-gynhyrchu mwyaf Cymru ac mae gennym swyddfeydd ym Mae Caerdydd ac yng nghanol dinas Caerdydd. Rydym yn chwilio am sawl aelod o staff i ymuno â'n timau sy'n tyfu'n gyson.

CYDLYNYDD ÔL-GYNHYRCHU

Mae Gorilla yn chwilio am Gydlynnydd Archebu i ymuno â thîm profiadol a fyddai'n cynllunio a rheoli amserlenni ôl-gynhyrchu a chyfleu rhaglenni i ddarlledwyr.

Cyfrifoldebau

Byddwch yn gyfrifol am gynnal amserlen gyfredol, mewnbynnu archebion yn gywir ac yn unol â'r pris a gytunwyd, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau.

Disgwylir i chi gadw cyfrifon cleientiaid yn gyfredol, creu ac anfon anfonebau ac adroddiadau cost er mwyn pennu terfynau amser.

Byddwch yn delio ag ymholiadau llif gwaith ac yn ymgynghori ag aelodau allweddol o staff i gynghori cleientiaid ar yr atebion mwyaf effeithlon a chost-effeithiol yn unol â'u cyllideb. Byddwch yn sicrhau bod boddhad cleientiaid yn parhau i fod yn ganolog trwy gydol y broses ôl-gynhyrchu ac yn hysbysu cysylltiadau am gynnydd a chostau yn gyson.

Yr Ymgeisydd Delfrydol

Rydym yn chwilio am rywun sydd â sgiliau cyfathrebu rhagorol ar draws pob cyfrwng ac sydd yn gyfarwydd iawn â defnyddio pecynnau meddalwedd fel Excel a Word. Bydd angen i chi fod yn hynod drefnus ac yn gallu gweithio fel rhan o dîm, gan gydweithio trwy gydol y dydd, yn ogystal â chyflawni tasgau ar gais mewn modd amserol. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn gallu perfformio dan bwysau a delio gydag awyrgylch lle mae pethau'n symud yn gyflym.

Dylai fod gennych eisoes ddealltwriaeth dda o lifoedd gwaith ôl-gynhyrchu, prosesau a chyfleu. Byddai gwybodaeth flaenorol am feddalwedd amserlennu yn fuddiol ond nid yn hanfodol.

Anfonwch eich cais, gan gynnwys CV a llythyr cefnogol yn nodi lefel eich profiad a'ch disgwyliadau o ran cyflog at jobs@gorillagroup.tv

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw'r 28.08.2021

Gorilla Mae Gorilla TV Ltd yn gyflogwr cyfle cyfartal sy'n croesawu pobl o safbwyntiau a chefnidiroedd amrywiol. Rydym wedi ymrwymo i adlewyrchu a chynrychioli'r amrywiaeth a geir yn y DU ym mhob agwedd o'n gwaith.

Mae eich Data Personol yn bwysig iawn i Gorilla TV Ltd a bydd yr wybodaeth yr ydych yn ei darparu yn cael ei chasglu a'i phrosesu yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'n [Hysbysiad Preifatrwydd Gorilla](#) Byddwn yn cadw'ch CV am 6 mis, oni bai eich bod yn gofyn i ni ei ddileu cyn hynny.